# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 324(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(15 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Frechiadau COVID-19

(30 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Y Genhadaeth o ran Cadernid ac Ailadeiladu Economaidd

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Y Rhaglen Ddatblygu Gwledig ddomestig yn y dyfodol

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Addysg: Effaith Drawsnewidiol Diwygio Cyllid Myfyrwyr

(30 munud)

## 7 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Yr Economi Sylfaenol

(30 munud)

## 8 Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021

(15 munud)

**NDM7594** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021

(15 munud)

**NDM7593** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

(15 munud)

**NDM7592** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 11 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

(5 munud)

**NDM7591** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu’r adrannau a’r atodlenni i’r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) Adrannau 2 – 8;

b) Adran 1;

c) Adrannau 10 –18;

d) Adran 9;

e) Adrannau 20 – 25;

f) Adran 19;

g) Adrannau 27 – 30;

h) Atodlen 1;

i) Adrannau 31 – 36;

j) Adran 26;

k) Adrannau 38 – 48;

l) Adran 37;

m) Adrannau 50 – 55;

n) Adran 49;

o) Adrannau 56 – 57;

p) Adrannau 59 – 61;

q) Adran 58;

r) Adrannau 62 – 71;

s) Atodlen 2;

t) Adrannau 72 – 83;

u) Teitl hir.

## 12 Dynodi cydsyniad Ei Mawrhydi i'r Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

(1 funud)

## 13 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

(15 munud)

**NDM7600** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru).

Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru). fel y'i diwygiad ar ôl Cyfnod 3

## 14 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 12.45, Dydd Mercher, 24 Chwefror 2021

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 18/02/2021 i'w hateb ar 23/02/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

1 OQ56338 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad at ofal iechyd meddwl brys?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ56303 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ailagor ysgolion?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

3 OQ56335 **(e)**

Pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i leihau effaith pandemig COVID-19 ar fenywod yn y gweithle?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

4 OQ56337 **(e)**

Pa gymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i yrwyr tacsis i'w helpu drwy'r pandemig?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

5 OQ56339 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o fenywod a merched i astudio a dilyn gyrfaoedd mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ56315 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflwyno'r brechlyn yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

7 OQ56340 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i blant a phobl ifanc sy'n dysgu gartref?

8 **Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

OQ56309 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y defnydd o'r iaith Gymraeg yng ngharchar Berwyn yn Wrecsam?

9 **Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

OQ56305 **(e)**

Pa gymorth ariannol ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau yn Sir Benfro yn ystod y pandemig?

10 **Leanne Wood** *Rhondda*

OQ56333 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i atal llifogydd yn y Rhondda ers storm Dennis y llynedd?

11 **Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ56324 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ffermio yng Nghymru?

12 **Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ56330 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y posibilrwydd o lacio cyfyngiadau COVID-19 yng Nghymru?